



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Recriwtio Comisiynydd Cynorthwyol

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr
Nifer y swyddi sydd ar gael: 4
(Gan gynnwys 1 Wrth Gefn)



Mae’r dogfen yma ar gael yn Saesneg
Mae’r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gov.uk. Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn ymholiadau@ffiniau.cymru.Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd yn www.comfffiniau.cymru.gov.uk

Cynnwys

Pennod 1	Neges gan y Dirprwy Gadeirydd	04
Pennod 2	Ynglŷn â’r Comisiwn Ffiniau i Gymru	06
Pennod 3	Ynglŷn â rôl Comisiynwyr Cynorthwyol	07
Pennod 4	Manyleb yr unigolyn	08
Pennod 5	Telerau penodi	10
Pennod 6	Y broses ymgeisio	11
Pennod 7	Y broses recriwtio	12
Pennod 8	Amserlen ddangosol	13
Pennod 9	Gwybodaeth arall	14
	Atodiad A	18
	Cysylltu â ni	19

Neges gan Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn



Annwyl ymgeisydd,

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi am eich diddordeb mewn dod yn Gomisiynydd Cynorthwyol ar gyfer y Comisiwn Ffiniau i Gymru wrth i ni gynnal Arolwg hollbwysig 2023 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru.

Bydd dod yn Gomisiynydd Cynorthwyol ar gyfer yr arolwg hwn yn rhoi cyfle i chi gyflawni rôl allweddol yn ystod y broses hanesyddol hon wrth i etholaethau Cymru gael eu newid yn sylweddol.

Mae ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn rhan hollbwysig o unrhyw arolwg. Po fwyaf yr ymgysylltir, y cryfaf y bydd ein cynigion.

A chithau'n Gomisiynydd Cynorthwyol, byddwch yn chwarae rhan annatod yn y broses, gan sicrhau ein bod yn casglu safbwyntiau'r cyhoedd, eu helpu i gyflwyno eu safbwyntiau yn y ffordd fwyaf effeithiol, a helpu i gyfleu'r safbwyntiau hynny yn ôl i'r Comisiwn er mwyn iddynt gael yr effaith fwyaf posibl ar y cynigion a wnawn.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr holl wybodaeth y bydd arnoch ei hangen am y Comisiwn, y rôl, a'r broses y byddwch yn ei dilyn wrth wneud cais am fod yn Gomisiynydd Cynorthwyol.

Fodd bynnag, os bydd gennych ragor o gwestiynau am y Comisiwn, yr Arolwg, neu unrhyw agwedd ar y rôl neu'r broses benodi, cysylltwch ag Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar:

02920 464819

bcw@boundaries.wales

Ar ôl darllen y ddogfen hon, os credwch fod gennych y sgiliau, y profiad, a'r awydd i'n helpu ni fel un o'n Comisiynwyr Cynorthwyol, edrychaf ymlaen at dderbyn eich cais.

Mrs Ustus Jefford DBE

Dirprwy Gadeirydd y
Comisiwn Ffiniau i Gymru



Ynglyn â'r Comisiwn Ffiniau i Gymru

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn un o bedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol, sy'n ymdrin â phob rhan o'r Deyrnas Unedig, a sefydlwyd gyntaf gan Ddeddf Tŷ'r Cyffredin (Ailddosbarthu Seddau) 1944.

Mae pob Comisiwn yn gwbl annibynnol ar y Llywodraeth, yn anwleidyddol ac yn ddiduedd, ac mae pob un wedi cwblhau pum arolwg cyffredinol o ffiniau etholaethau seneddol ers iddo gael ei sefydlu.

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn gorff parhaol a gyfansoddwyd o dan Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 sydd, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Comisiynau Ffiniau 1992, Rhan 2 Deddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 a Deddf Etholaethau Seneddol 2020, yn mynnu bod y pedwar Comisiwn yn adolygu etholaethau seneddol yn barhaus trwy gynnal arolwg o'r holl etholaethau yn eu hardal bob wyth mlynedd (ar ôl cwblhau Arolwg 2023).

Cadeirydd y Comisiwn yw Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, ond yn ôl yr arfer nid yw'n cymryd rhan mewn cynnal arolygon ffiniau na llunio argymhellion y Comisiwn.

Felly, y Dirprwy Gadeirydd sy'n arwain gwaith y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae'n rhaid i'r Dirprwy Gadeirydd fod yn Farnwr Uchel Lys sy'n gwasanaethu, ac fe'i penodir gan yr Arglwydd Ganghellor. Cynorthwyr y Dirprwy Gadeirydd gan ddau Gomisiynydd a benodir gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet.

Y Dirprwy Gadeirydd presennol yw Mrs Ustus Jefford DBE, ac fe'i cynorthwyr gan y Comisiynwyr Mr Huw Vaughan Thomas CBE, a Mr Sam Hartley.

Dechreuodd yr arolwg presennol yn ffurfiol ym mis Ionawr 2021 a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2023. Mae ar y tri Chomisiynydd Ffiniau angen nifer o Gomisiynwyr Cynorthwyol i weithio gyda nhw ar yr arolwg hwn.

Cynorthwyr y Comisiwn Ffiniau i Gymru gan dîm bach o weision sifil a arweinir gan yr Ysgrifennydd i'r Comisiwn. Noddir y Comisiwn Ffiniau i Gymru gan Swyddfa'r Cabinet ac mae'r gwaith recriwtio hwn yn cael ei wneud ar y cyd gan y ddau gorff.

Penodir ymgeiswyr llwyddiannus gan yr Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, ond byddant yn atebol i'r Comisiynwyr Ffiniau.

Sylwch nad penodiadau cyhoeddus a reoleiddir yw'r rhain, felly ni all y Tîm Penodiadau Cyhoeddus ateb unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r swydd wag hon.

Mae rhagor o wybodaeth am y Comisiwn Ffiniau i Gymru a'r arolwg presennol ar gael o'r wefan, yn: www.comffin-cymru.gov.uk

Ynglyn â rôl Comisiynwyr Cynorthwyol

Disgwylir penodi tri Chomisiynydd Cynorthwyol ar gyfer yr Arolwg. Bydd y Comisiwn hefyd yn penodi Comisiynydd Cynorthwyol wrth gefn. Mae'r Comisiwn yn bwriadu trefnu gwrandawiadau hybrid lle y bydd y mynychwyr yn darparu tystiolaeth naill ai'n bersonol neu drwy drefniadau fideogynadledda.

A chithau'n Gomisiynydd Cynorthwyol, efallai y gofynnir i chi:

- fynychu'r gwrandawiadau cyhoeddus (a'u cadeirio, os cewch eich dynodi'n Gomisiynydd Cynorthwyol 'arweiniol');
- cynorthwyo'r Ysgrifenyddiaeth i ddadansoddi'r holl gynrychiolaethau yn dilyn y cyfnodau ymgynghori cychwynnol ac eilaidd; a
- chyfrannu at gynhyrchu a chyflwyno adroddiad gan y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r Comisiynwyr Ffiniau yn argymell unrhyw ddiwygiadau i'r cynigion.

Disgwylir i'r Comisiynydd Cynorthwyol Arweiniol gadeirio'r gwrandawiadau cyhoeddus. Disgwylir i Gomisiynwyr Cynorthwyol hefyd gyfrannu at ysgrifennu a chyflwyno'r adroddiad i'r Comisiynwyr Ffiniau gydag argymhellion ar gyfer Cymru.

Gallai'r Comisiwn Ffiniau i Gymru hefyd ofyn i unrhyw Gomisiynydd Cynorthwyol ei helpu i gyflawni unrhyw rai eraill o'i ddyletswyddau statudol fel y gwêl orau.

Cynhelir gwrandawiadau cyhoeddus yn ystod y cyfnod ymgynghori eilaidd ar gynigion y Comisiwn, y bwriedir iddo gael ei gynnal yn gynnar yn 2022.

Wrth gadeirio gwrandawiadau cyhoeddus, bydd yn ofynnol i chi:

- ddarllen ac amgyffred cynigion cychwynnol y Comisiwn cyn y gwrandawiadau, gan gynnwys mapiau a dogfennau ysgrifenedig cysylltiedig;
- teithio i fynychu'r gwrandawiadau;
- cadeirio pob gwrandawiad mewn modd teg ac effeithlon, o fewn y terfynau amser statudol a'r canllawiau gweithdrefnol a sefydlwyd gan y Comisiwn, gan gynnwys galw ar siaradwyr cofrestredig i roi eu cyflwyniadau, a gofyn a chaniatáu cwestiynau eglurhad fel y bo'n briodol. Gwneir cyfraniadau'n bersonol ac o bell.



Manyleb yr Unigolyn

Sgiliau/profiad sy’n ofynnol

Mae’n bwysig eich bod yn rhoi tystiolaeth ac enghreifftiau, trwy eich CV a’ch Datganiad o Addasrwydd, o’ch gwybodaeth, sgiliau a phrofiad mewn perthynas â phob un o’r meini prawf dethol a fanylir.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu dangos y sgiliau a’r profiad hanfodol canlynol:

Meini prawf hanfodol

- Uniondeb a meddwl annibynnol;
- Y gallu i weithio’n gywir yn gyflym ac o dan bwysau, gan amgyffred manylion yn gyflym, a dadansoddi symiau mawr o wybodaeth yn wrthrychol.
- Y gallu i gynhyrchu argymhellion clir a chryno wedi’u seilio ar dystiolaeth, ar lafar ac yn ysgrifenedig;
- Y gallu i weithio’n dda yn rhan o dîm gydag Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau i Gymru a Chomisiynwyr Cynorthwyol eraill;
- Y gallu i weithio’n hyblyg fel y bo’r angen;
- Y gallu i esbonio gweithdrefnau, ennyn parch a hyder, a chynnal awdurdod wrth gael eich herio, yn enwedig yng nghyd-destun gwrandawriad cyhoeddus;
- Profiad o gynnal a rheoli gwrandawriadau cyhoeddus sy’n cynnwys cyfranogiad personol a rhithwir.
- Y gallu i drin pawb â pharch a sensitifrwydd, ni waeth beth fo’u cefndir, a dangos amynedd, cwrteisi a thringarwch wrth ddelio â’r cyhoedd.
- Dealltwriaeth gadarn o ddaearyddiaeth Cymru a chysylltiadau cymunedol yng Nghymru.
- Ymrwymiad i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (gweler Atodiad A)
- Siaradwr Cymraeg rhugl (ar gyfer 1 swydd o leiaf)

Dymunol ond nid hanfodol

- Profiad o weithio gyda data gofodol neu ddaearyddol a/neu yn y maes cyfansoddiadol.

Ar gyfer y swydd hon, ni all unigolyn gael ei benodi’n Gomisiynydd Cynorthwyol os oes ganddo euogfarnau heb eu disbyddu, os yw’n destun methdaliad, os yw wedi’i ddatgymhwyso fel cyfarwyddwr cwmni, neu os yw wedi bod yn weithgar yn gyhoeddus wrth gefnogi plaid wleidyddol gofrestredig yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Mae’n rhaid bod dim cyfyngiadau cyflogaeth, na therfyn ar eich arhosiad a ganiateir yn y Deyrnas Unedig.



Telerau Penodi

Cydnabyddiaeth ariannol, lwfansau ac atal

Mae'r telerau cydnabyddiaeth ariannol fel a ganlyn:

- Bydd Comisiynwyr Cynorthwyol yn cael cydnabyddiaeth ariannol o £505.50 y dydd (£252.75 fesul hanner diwrnod);
- Mae cydnabyddiaeth ariannol yn drethadwy o dan Atodlen E Deddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988 (fel y'i diwygiwyd) ac yn destun cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth I;
- Nid yw'n bensiynadwy;
- Bydd y rhai hynny a benodir hefyd yn gymwys i hawlio lwfansau rhesymol, ar gyfraddau a osodir yn ganolog, ar gyfer costau teithio a chynhaliadaeth a geir o reidrwydd wrth gynnal busnes y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

Penodi, deiliadaeth ac ymrwymiad

Penodir Comisiynwyr Cynorthwyol gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Bydd y penodiad am gyfnod o 10 mis, yn dechrau yng nghanol mis Medi 2021 ac yn dod i ben yng nghanol mis Gorffennaf 2022.

Disgwylir i'r gwaith fod yn ofynnol mewn cyfnodau penodol yn dechrau gyda hyd at 10 niwrnod yn gynnar yn 2022 i fynychu'r gwrandawiadau cyhoeddus ac yna diwrnodau ychwanegol i gyfrannu at a chynhyrchu adroddiad i'r Comisiynwyr Ffiniau, yn ogystal â diwrnod i gyflwyno canfyddiadau'r adroddiad hwnnw i'r Comisiynwyr Ffiniau.

Gofynnir i Gomisiynwyr Cynorthwyol ymgymryd â'r canlynol ac mae'n rhaid iddynt fod ar gael i wneud hynny:

- Sesiwn hyfforddiant cynefino – sy'n debygol o bara tua hanner diwrnod, yn swyddfeydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yng Nghaerdydd, yn ystod yr hydref 2021;
- Cadeirio/mynychu gwrandawiadau cyhoeddus – uchafswm o bump, y gallai pob un ohonynt bara deuddydd, a gynhelir mewn trefi a dinasoedd penodedig, yn gynnar yn 2022;

Dadansoddi cynrychiolaethau ysgrifenedig a thrawsgrifiadau gwrandawiadau, a gweithio gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol eraill i ysgrifennu a chyflwyno adroddiad gydag argymhellion i'r Comisiynwyr.

Bydd faint o amser sy'n ofynnol yn dibynnu ar nifer a chymhlethdod yr ymatebion a geir, ond amcangyfrifwn uchafswm o oddeutu 25 niwrnod o waith.

Mae'n bwysig nad yw ymrwymadau eraill Comisiynydd Cynorthwyol yn codi amheuan ynglŷn â'i allu i weithredu'n annibynnol ac yn ddiduedd wrth gyflawni'r rôl; mae'n rhaid i unrhyw wrthdaro buddiannau posibl – yn enwedig ymwneud personol â phlaid wleidyddol – gael ei ddatgan yn y ffurflenni monitro.

Y Broses Ymgeisio

I wneud cais, bydd angen i chi lenwi'r dogfennau canlynol a'u cyflwyno i vacancies@boundaries.wales erbyn 23.59pm ar 23 Gorffennaf 2021 fan bellaf.

1. Ffurflen gais sy'n cynnwys y canlynol:

- a. CV – sy'n amlinellu eich hanes gyrfaol, gan gynnwys eich cyfrifoldebau a chyflawniadau allweddol yn ogystal â'ch cymwysterau addysgol a phroffesiynol. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi rhesymau dros unrhyw fylchau o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf;
- b. Datganiad o Addasrwydd (nad yw'n fwy na 1,250 eiriau) sy'n esbonio sut rydych yn credu bod eich sgiliau personol, priodweddau a phrofiad yn darparu tystiolaeth o'ch addasrwydd i'r rôl, gan gyfeirio'n benodol at y meini prawf hanfodol a dymunol ym manyleb yr unigolyn.

2. Ffurflen Gwybodaeth Ategol Ymgeisydd. Bydd yr holl ddata'n cael ei drin yn gwbl gyfrinachol.

Bydd methiant i gyflwyno'r holl ddogfennau yn golygu y bydd gan y panel wybodaeth gyfyngedig yn unig i asesu'ch cais yn erbyn y meini prawf ym manyleb yr unigolyn. Gwnewch yn siŵr fod y ddwy ddogfen yn cynnwys eich enw llawn.



Y Broses Recriwtio

Mae'r broses yn un o gystadleuaeth deg ac agored, ac mae'n dilyn egwyddorion Cod Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer Penodiadau Gweinidogol i Gyrff Cyhoeddus.

Byddwch yn cael cydnabyddiaeth o'ch cais trwy'r broses ar-lein.

Y broses ddethol

Cadeirir y panel gan un o Gomisiynwyr y Comisiwn Ffiniau i Gymru, a bydd yn cynnwys:

- Aelod panel annibynnol; ac
- Ysgrifennydd y Comisiwn.

Bydd y rhestr fer ar gyfer cyfveliadau yn cael ei llunio ar sail teilyngdod. Asesir pob cais i ddethol y rhai hynny sy'n cyfateb orau i'r rôl trwy ystyried y dystiolaeth a roddwyd gennych yn erbyn y meini prawf a amlinellir ym Manyleb yr Unigolyn.

Gallai methiant i fynd i'r afael ag unrhyw un neu bob un o'r rhain effeithio ar eich cais.

Mae'r llinell amser yn ddiweddarach yn y pecyn hwn yn nodi'r dyddiad erbyn pryd y disgwylir i benderfyniadau gael eu gwneud, a bydd yr holl ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael gwybod am y canlyniad cyn gynted â phosibl wedi hynny.

Cyfveliadau

Os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer, gofynnir i chi fynychu cyfveliad panel i gael trafodaeth fanylach am eich profiad blaenorol a'ch cymhwysedd proffesiynol mewn perthynas â'r meini prawf a amlinellir ym Manyleb yr Unigolyn.

Cynhelir cyfveliad terfynol y panel dethol yng Nghaerdydd yn Swyddfa'r Comisiwn Ffiniau i Gymru neu drwy fideogynadledda, yn dibynnu ar gyngor y Llywodraeth wrth ymateb i'r pandemig Covid-19. Rhoddir gwybod i chi am y fformat o flaen llaw.

Bydd manylion llawn am y broses ar gael i'r ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer.

Cynnig penodiad

Ni waeth beth fo'r canlyniad, byddwn yn rhoi gwybod i bob ymgeisydd cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfveliad terfynol.

Yn anffodus, dim ond i ymgeiswyr sydd wedi bod yn aflwyddiannus ar y cam cyfwell y gallwn gynnig adborth.

Os oes gennych gŵyn am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais ar unrhyw gam o'r broses, gweler yr adran isod ar y broses gwynion.

Amserlen Recriwtio

Byddwn yn ceisio cynnig cymaint o hyblygrwydd ag y gallwn, ond efallai na fydd modd cynnig dyddiadau amgen ar gyfer cyfveliadau o ganlyniad i argaeledd cyfyngedig aelodau'r panel dethol. Felly, gofynnir i chi nodi'r amserlen isod. Sylwch y gallai'r dyddiadau hyn newid.

Dyddiad cau	23 Gorffennaf 2021
Dyddiad tebygol ar gyfer llunio rhestr fer	Diwedd Gorffennaf 2021
Dyddiad gwahodd ymgeiswyr llwyddianus i gael cyfveliad	Diwedd Gorffennaf 2021
Dyddiad tebygol ar gyfer cynnal cyfveliadau	Dechrau Awst 2021
Dyddiad dechrau dros dro ar gyfer y penodiad	15 Medi 2021



Gwybodaeth Arall

Sut i gwyno

Os nad ydych yn gwbl fodlon â’r ffordd yr ymdrinnir â’ch cais ar unrhyw gam o’r gystadleuaeth, cyflwynwch eich cwyn i’r Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn gyntaf trwy bcw@boundaries.wales.

Ymchwilir i’ch cwyn gan rywun nad oedd yn ymwneud â’r broses recriwtio. Byddwn yn ymateb i’ch cwyn o fewn 20 niwrnod.

Cyfle Cyfartal

Mae amrywiaeth cyfle yn bwysig iawn i Swyddfa’r Cabinet a’r Comisiwn Ffiniau i Gymru. Anogir ceisiadau gan ymgeiswyr ni waeth am hil, crefydd neu gred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, anabledd, neu ailbennu rhywedd. Croesawn yn arbennig geisiadau gan fenywod, pobl ag anabledd a phobl o gefndir du neu leiafrif ethnig.

Cynllun Hyderus o ran Anabledd (DCS)

Gwarentir cyfweiliad i ymgeiswyr anabl sy’n bodloni’r meini prawf dethol gofynnol ym manyleb y swydd. Detholir ar sail teilyngdod. Os hoffech hawlio cyfweiliad gwarantedig o dan y Cynllun Hyderus o ran Anabledd, dylech lenwi’r rhan berthnasol o’r ffurflen gais ar-lein. Nid oes angen nodi natur eich anabledd.

Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn diffinio unigolyn anabl fel rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol sy’n cael effaith tymor hir sylweddol a niweidiol ar ei allu i gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd arferol. Os hoffech wneud cais o dan y Cynllun Hyderus o ran Anabledd, llenwch y datganiad ar y ffurflen.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Disgwylir i chi ddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Disgwylir i ymgeiswyr ddilyn y “Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus” a amlinellwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (gweler Atodiad A).

Defnyddio’ch gwybodaeth bersonol

Bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio i fwrw ymlaen â’r penodiadau a restrir yn y pecyn gwybodaeth hwn. Gallai gwybodaeth monitro amrywiaeth gael ei gwneud yn ddienw a’i defnyddio at ddibenion monitro yn unig. Disgrifir y ffordd rydym yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch mewn hysbysiad preifatrwydd. Mae’r hysbysiad hwn ar gael ar wefan y Comisiwn Ffiniau i Gymru, yn: www.comffin-cymru.gov.uk

Gwybodaeth monitro amrywiaeth

Nid yw’r wybodaeth a roddwch ar y ffurflen monitro amrywiaeth yn cael ei defnyddio yn y broses ddethol. Bydd y wybodaeth yn cael ei dileu wrth ei derbyn ac ni fydd yn cael ei gweld gan y panel sy’n asesu eich cais. Defnyddiwn y wybodaeth hon i fonitro amrywiaeth yr ymgeiswyr a ddenwn a’r rhai hynny a benodwn.

Datganiad gweithgarwch gwleidyddol

Bydd angen i Gomisiynwyr Cynorthwyol ddangos didueddrwydd gwleidyddol yn ystod eu cyfnod gyda’r Comisiwn Ffiniau i Gymru ac mae’n rhaid iddynt ddatgan unrhyw weithgarwch gwleidyddol maen nhw’n ymgymryd ag ef yn ystod cyfnod eu penodiad.


O ganlyniad i natur y Comisiwn Ffiniau i Gymru, nid yw’n briodol i Gomisiynwyr Cynorthwyol ddal swyddi gwleidyddol taledig na swyddi sensitif, uwch neu amlwg mewn unrhyw sefydliad gwleidyddol. Ni ystyrir bod enwebiad i gael eich ethol i swydd wleidyddol yn gydnaws â gweithio ar yr arolygon o ffiniau.

Diffinnir gweithgarwch gwleidyddol arwyddocaol fel cael eich cyflogi gan blaid wleidyddol, dal swydd o bwys mewn plaid, sefyll fel ymgeisydd ar gyfer plaid mewn etholiad, wedi siarad yn gyhoeddus ar ran plaid wleidyddol neu wedi gwneud rhoddion neu fenthyciadau sylweddol i blaid. Benthyciadau a rhoddion sylweddol yw’r rhai hynny o faint a adroddir i’r Comisiwn Etholiadol, yn unol â throthwy adrodd plaid ganolog.

Os ydych yn ansicr p’un a yw unrhyw ymwneud gwleidyddol a gawsoch yn ddigonol i’ch diystyru, cysylltwch ag Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar 020 20 464819 neu anfonwch neges e-bost at: bcw@boundaries.wales.

Bydd y Datganiad Gweithgarwch Gwleidyddol yn cael ei gadw ar wahân i’ch cais ac yn cael ei weld gan y panel dethol cyn y cyfweiliad yn unig. Fodd bynnag, sylweddolir y gallai gweithgareddau o’r fath fod wedi rhoi sgiliau perthnasol i chi, gan gynnwys profiad a gafwyd o waith pwyllgor, gwneud penderfyniadau ar y cyd, datrys gwrthdaro a siarad yn gyhoeddus. Felly, os ydych wedi cael profiad o’r fath ac yn credu ei fod yn berthnasol i’ch cais ar gyfer y swydd hon, dylech ei gynnwys ar wahân yn eich cais.

Os cewch eich penodi i’r swydd, bydd manylion eich ymateb i’r Datganiad Gweithgarwch Gwleidyddol yn cael eu cynnwys mewn unrhyw gyhoeddiad ynglŷn â’ch penodiad.



Gwybodaeth Arall

Datgymhwyso o benodi

Ni fydd unrhyw un yn y categorïau a restrir isod yn cael ei ystyried ar gyfer ei benodi'n Gomisiynydd Cynorthwyol (gweler hefyd ‘Gweithgarwch Gwleidyddol’ uchod):

- Cyflogi yng ngwasanaeth sifil y wladwriaeth
- Euogfarnau troseddol heb eu disbyddu
- Methdaliad
- Datgymhwyso fel cyfarwyddwr cwmni.

Terfynu penodiadau

Gellir terfynu penodiadau cyn diwedd cyfnod y penodiad os yw'r Gweinidog yn fodlon nad yw'r Aelod yn gallu cyflawni swyddogaethau'r swydd neu nad yw'r Aelod yn fodlon gwneud hynny neu'n addas i wneud hynny.

Ad-dalu treuliau

Nid yw'r Comisiwn yn gallu ad-dalu treuliau a geir yn ystod y broses ddethol.

Gwrthdaro buddiannau

Disgwylir i gyrff cyhoeddus gynnal cofrestr o fuddiannau aelodau er mwyn osgoi perygl sefyllfa lle mae comisiynwyr yn cael eu dylanwadu – neu'n ymddangos fel petaent yn cael eu dylanwadu – gan eu buddiannau preifat wrth arfer eu dyletswyddau cyhoeddus.

Bydd ymgeiswyr a wahoddir i gael cyfweiliad yn cael eu holi ynglŷn ag unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig. Nid yw'r rhain yn atal penodi'n syth, ond mae'n rhaid bod modd eu rheoli.

Disgwylir i unigolion a benodir gyfrannu gwybodaeth berthnasol (er enghraifft perchenogaeth ar eiddo mewn ardal sy'n cael ei hystyried) at Gofrestr Buddiannau gyhoeddedig.

Bydd angen i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi yn ystod busnes y Comisiwn Ffiniau.



Atodiad A

Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus

Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus

Disgwylir i bob ymgeisydd am benodiad cyhoeddus ddangos ymrwymiad i werth a phwysigrwydd yr egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus a dealltwriaeth ohonynt. Dyma'r saith egwyddor bywyd cyhoeddus:

Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd unig.

Uniondeb

Mae'n rhaid i ddeiliaid swydd gyhoeddus osgoi rhoi eu hunain dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt mewn modd amhriodol yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud unrhyw benderfyniadau er mwyn sicrhau manteision ariannol neu fanteision materol eraill iddynt eu hunain, eu teulu neu eu ffrindiau. Mae'n rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthnasoedd.

Gwrthrychedd

Mae'n rhaid i ddeiliaid swydd gyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd diduedd, teg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na dangos rhagfarn.

Atebolrwydd

Mae deiliaid swydd gyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd ac mae'n rhaid iddynt gynnig eu hunain ar gyfer pa graffu bynnag sy'n angenrheidiol i sicrhau hyn.

Bod yn agored

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylai gwybodaeth gael ei chadw oddi wrth y cyhoedd oni bai bod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

Gonestrwydd

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus ddweud y gwir.


Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad. Dylent fynd ati i hyrwyddo a chefnogi'n gadarn yr egwyddorion a bod yn barod i herio ymddygiad gwael lle bynnag y mae'n digwydd.

Cysylltu â Ni

Os hoffech gysylltu â ni unrhyw bryd, gwnewch hynny drwy'r dulliau canlynol:

- Anfonwch neges e-bost atom trwy: bcw@boundaries.wales
- Ffoniwch ni ar: 02920 464819





Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, negeseuon e-bost a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
I gysylltu â'r Comisiwn, ysgrifennwch at:

Comisiwn Ffiniau i Gymru,
Llawr Gwaelod, Tŷ Hastings, Llys Fitzalan,
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif ffôn: +44 (0)29 20464819
Rhif ffôn: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@boundaries.wales